O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U

# 2018 Rhif (Cy.)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid i Gylchfan Dowlais, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018

*Gwnaed* *8 Chwefror 2018*

*Yn dod i rym* *12 Chwefror 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Man i'r Dwyrain o Ddowlais, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid i Gylchfan Dowlais, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 12 Chwefror 2018.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 2018 No. (W.)

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A4060 Trunk Road (Abercanaid Roundabout to Dowlais Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2018

*Made* *8 February 2018*

*Coming into force* *12 February 2018*

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the A4060 East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)**, make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is The A4060 Trunk Road (Abercanaid Roundabout to Dowlais Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2018 and it comes into force on 12 February 2018.

**2.** (1) In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

**(1)** 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Chwefror 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Man i'r Dwyrain o Ddowlais.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Chwefror 2018

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the lengths of the A4060 East of Abercynon to East of Dowlais trunk road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 12 February 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed in the lengths of the trunk road specified in the Schedule.

**4.** No person may, during the works period, ride or cause to be ridden, any pedal cycle in the lengths of the trunk road specified in the Schedule.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed in the lengths of the trunk road specified in the Schedule.

**Application**

**6.** The prohibitions of articles 3, 4 and 5 may apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**7.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 8 February 2018

Nina Ley
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**YR ATODLEN**

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Abercannaid hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach.

2. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag

**SCHEDULE**

1. The length of the trunk road that extends from its junction with the north-eastern side of Abercanaid Roundabout to its junction with the south-eastern side of Pentrebach Roundabout.

2. The length of the trunk road that extends from its

ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Leo.

3. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Mountain Hare.

4. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Mountain Hare hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Dowlais.

junction with the north-eastern side of Pentrebach Roundabout to its junction with the southern side of Leo's Roundabout.

3. The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Leo's Roundabout to its junction with the southern side of Mountain Hare Roundabout.

4. The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Mountain Hare Roundabout to its junction with the southern side of Dowlais Roundabout.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4060 (CYLCHFAN ABERCANNAID I GYLCHFAN DOWLAIS, MERTHYR TUDFUL) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4060, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Abercannaid a Chylchfan Dowlais, Merthyr Tudful.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r A4060 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 12 Chwefror 2018 ac yn gweithredu'n yn ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Pan fo'n ymarferol, bydd hysbysiad ynghylch cau'r ffordd yn cael ei arddangos tua wythnos ymlaen llaw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A4060 TRUNK ROAD (ABERCANAID ROUNDABOUT TO DOWLAIS ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4060 trunk road between Abercanaid Roundabout and Dowlais Roundabout, Merthyr Tydfil.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding in the lengths of the A4060 described in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force on 12 February 2018 and operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Where practical, notice of closures will be displayed approximately one week in advance.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**
**Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill**

1. Y darn o'r A4060 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Abercannaid hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A470 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Cefncoedycymer, yr A465 tua'r dwyrain i Gylchfan Dowlais Top a'r A4060 tua'r de i Gylchfan Pentre-bach. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

2. Y darn o'r A4060 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Leo.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A4054 Merthyr Road tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan yr Ardal Fasnachu a Triangle Business Park Road tua'r de-ddwyrain i ailymuno â'r A4060 wrth Gylchfan Leo. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Dylai traffig lleol i Bentre-bach ddilyn y llwybr tua'r de uchod ac yna cymryd yr A4054 tua'r de i Maestaf Street.

3. Y darn o'r A4060 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Mountain Hare.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A4060 tua'r de i Gylchfan Abercannaid, yr A470 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Cefncoedycymer, yr A465 tua'r dwyrain i Gylchfan Dowlais Top a'r A4060 tua'r de. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

4. Y darn o'r A4060 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Mountain Hare hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Dowlais.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A4060 tua'r de i Gylchfan Abercannaid, yr A470 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Cefncoedycymer a'r A465 tua'r dwyrain i Gylchfan Dowlais Top. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Yn ystod cyfnodau'r cau a ddisgrifir yn 3 a 4 uchod, cynhelir mynediad lleol ar draws Cyffyrdd Glyn Mill a Chwm Blacks.

**SCHEDULE**
**Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians and Alternative Routes**

1. The length of the A4060 that extends from its junction with the north-eastern side of Abercanaid Roundabout to its junction with the south-eastern side of Pentrebach Roundabout.

The alternative route for northbound traffic will be via the north-westbound A470 to Cefn Coed Roundabout, the eastbound A465 to Dowlais Top Roundabout and the southbound A4060 to Pentrebach Roundabout: vice versa for southbound traffic.

2. The length of the A4060 that extends from its junction with the north-eastern side of Pentrebach Roundabout to its junction with the southern side of Leo's Roundabout.

The alternative route for northbound traffic will be via the north-westbound A4054 Merthyr Road to Trading Area Roundabout and south-eastbound Triangle Business Park Road to re-join the A4060 at Leo's Roundabout: vice versa for southbound traffic.

Local traffic for Pentrebach should follow the southbound route above and then take the southbound A4054 to Maestaf Street.

3. The length of the A4060 that extends from its junction with the northern side of Leo's Roundabout to its junction with the southern side of Mountain Hare Roundabout.

The alternative route for northbound traffic will be via the southbound A4060 to Abercanaid Roundabout, the north-westbound A470 to Cefn Coed Roundabout, the eastbound A465 to Dowlais Top Roundabout and the southbound A4060: vice versa for southbound traffic.

4. The length of the A4060 that extends from its junction with the northern side of Mountain Hare Roundabout to its junction with the southern side of Dowlais Roundabout.

The alternative route for northbound traffic will be via the southbound A4060 to Abercanaid Roundabout, the north-westbound A470 to Cefn Coed Roundabout and the eastbound A465 to Dowlais Top Roundabout: vice versa for southbound traffic.

For closures described at 3 and 4 above, local access will be maintained across Glyn Mill and Cwm Blacks Junctions.